# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HYDREF 2021**

**TGAU**
**CYMRAEG IAITH - UNED 3**
**3000N30-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2021. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

**TGAU CYMRAEG IAITH - UNED 3**

**CYNLLUNIAU MARCIO HYDREF 2021**

**Adran A (Darllen): 30 marc**

**Darn Darllen 1**

**Clwb Graffiti**

**A1.** Faint o'r gloch bydd y clwb graffiti'n gorffen? [1]

18.30 / 6:30pm / hanner awr wedi chwech o'r gloch
Adalw gwybodaeth

**A2.** Sut mae hi'n bosib ymuno â'r clwb? [1]

ebostio
Nodi'r cyfeiriad ebost yn unig – 0 marc
Adalw gwybodaeth

**A3.** Enwch **un** dechneg i berswadio sy'n cael ei defnyddio yn yr hysbyseb a rhowch enghraifft ohoni. [2]

Cwestiwn Rhethregol
Cyfarch / Siarad yn uniongyrchol
Gorchymyn
Rhestru/pwyntiau bwled
Adnabod techneg arddull
Ni dderbynnir lliwiau / llun fel nodwedd
Rhaid nodi techneg ac enghraifft i ennill y 2 farc
Techneg heb enghraifft – 0 marc
Enghraifft heb nodi techneg – 0 marc

**Darn Darllen 2**

**A yw graffiti'n anghyfreithlon?**

**A4.** Beth yw'r gosb os yw unigolyn yn cael ei gyhuddo o ddifrod sy'n werth llai na £10,000? Rhowch ✓ yn y blwch priodol. [1]

Dirwy neu wasanaeth cymunedol ✓
Rhoi ✓ i fwy nag un – 0 marc
Adalw Gwybodaeth

**Darn Darllen 3**

**Banksy Bach**

**A5.** Mae pedwar o’r gosodiadau isod yn gywir wrth drafod Banksy Bach a’i fywyd. Mae un ateb cywir wedi’i roi i chi’n barod. Rhowch ✓ yn y blychau gyferbyn â’r **tri** sylw cywir arall. [3]

| | |
|---|---|
| Mae’n hoff o waith yr arlunydd Picasso. | ✓ |
| Dechreuodd wneud graffiti drwy beintio’r waliau yn nhref Llandudno gyda phaent du. | |
| Mae’n credu y dylai celf gael ei weld y tu allan i orielau. | ✓ |
| Mae artistiaid fel Banksy yn poblogeiddio graffiti ymysg pobl ifanc. | ✓ |
| Nid yw Banksy Bach erioed wedi bod mewn trafferth â’r heddlu. | |
| Roedd yn arfer braslunio mewn llyfr cyn rhoi graffiti ar waliau. | ✓ |
| Nid yw arlunwyr graffiti profiadol yn fodlon dysgu eu crefft i arlunwyr dibrofiad. | |
| Dim ond y pethau mae’n eu hoffi sy’n ysbrydoli Banksy Bach. | |

✓ 4 blwch – 2 farc
✓5 blwch – 0 marc
Adalw a dehongli gwybodaeth

**A6.** Nodwch **ddwy** o fanteision graffiti. [2]

- mae'n ffordd wych o fynegi dy hun
- creu rhywbeth sy'n gwneud i bobl stopio ac edrych arno
- dod â llawer o wahanol bobl a diwylliannau at ei gilydd i greu celf anhygoel
- gallu gwneud graffiti am unrhyw beth (hoffi/casáu/diddordeb)
- gallu gweld celf y tu allan i orielau (am ddim)

Rhesymu

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 4**

**Celfyddyd neu fandaliaeth?**

**A7.** Tanlinellwch yr ymadrodd yn y paragraff isod sy'n golygu "mewn gwirionedd". [1]

Disgwylir tanlinellu'r 3 gair i gael marc.

| |
|---|
| Yn dilyn yr holl hanes diweddar am anrheg anghyfreithlon Banksy i dref Port Talbot dros gyfnod y Nadolig 2018, rydw i'n synnu bod y cyfryngau'n rhoi'r fath fri i rywbeth sydd – yn ei hanfod – yn anghyfreithlon. Trosedd o fandaliaeth ydy graffiti. Ystyriwch beth mae'r unigolyn yn ei wneud - marcio neu ddifetha golwg safle neu eiddo rhywun arall heb ganiatâd. A dyna a wnaeth Banksy – difrodi garej person cyffredin. |

Dehongli ystyr geiriau

**A8.** Beth yw barn yr awdur ynghylch graffiti? Rhowch resymau dros eich ateb. [2]

- Ddim yn hoffi/yn erbyn
- Trosedd o fandaliaeth ydy graffiti/mae'n anghyfreithlon
- Mae'n beryglus (pobl yn peryglu eu bywydau)
- Cael gwared ohono'n gostus
- Camddefnydd o arian cyhoeddus i'w lanhau
- Effeithio ar unigolion a'r gymuned mewn ffordd negyddol

Neu unrhyw sylwadau perthnasol eraill.

**0 marc**
Dim ateb/ateb amherthnasol

**1 marc**
Trafod barn yr awdur yn fras

**2 farc**
Trafod barn yr awdur yn dda
Dehongli/rhesymu

© WJEC CBAC Cyf.

**A9**. Sut mae'r awdur wedi mynd ati i gyflwyno'r farn honno? [6]

✓ – techneg
t – tystiolaeth
d – dehongli

**0 marc**
Dim ateb/ateb amherthnasol

**1 marc**
Ateb byr iawn – ymgais i drafod arddull/technegau'r testun yn fras

**2 farc**
Ymdrech eithaf da i drafod arddull/technegau'r testun gan gynnwys ambell enghraifft/dyfyniad

**3 marc**
Ymdrech dda i drafod arddull/technegau a ddefnyddir yn y testun gan gynnwys ambell enghraifft/dyfyniad a dechrau dadansoddi

**4 marc**
Trafod arddull/technegau yn dda gan gynnwys enghreifftiau/dyfyniadau perthnasol yn gyson a dadansoddi'n dda a chyson

**5 marc**
Trafod arddull/technegau yn dda iawn gan gynnwys enghreifftiau/dyfyniadau perthnasol yn gyson a dadansoddi'n dda iawn

**6 marc**
Trafod arddull/technegau yn ddeallus gan gynnig dyfyniadau/cyfeiriadau yn gyson a dadansoddi'n aeddfed

Gellir cyfeirio at y canlynol:

| | |
|---|---|
| Trosiad | anrheg anghyfreithlon |
| Gorchymyn | Ystyriwch |
| Geirfa Mynegi Barn | rydw i'n synnu |
| Ystyried Gwrth-ddadl | efallai bod y neges yn y llun yn un bwysig ynghylch llygredd aer Port Talbot … |
| Ffeithiau/Rhifau | £1 biliwn |
| Cwestiwn Rhethregol | Pa hawl sydd gan unigolyn i ddifrodi eiddo cyhoeddus? |
| Rhestru | cysgodfan bws, pont, ysgol neu wal tŷ bach |
| Idiom | rhwydd hynt iddyn nhw, rhoi'r fath fri |
| Ansoddair | peryglus, cyffredin, costus, sylweddol |
| Tystiolaeth | Yn ôl arolwg gan *y National Rai*l, tresmasu ar y cledrau sy'n achosi'r nifer mwyaf o farwolaethau ar y rheilffyrdd bob blwyddyn |
| Person 1af | Mae'n bryd i ni edrych ar y sefyllfa |
| Brawddegau Byrion | Ddylen ni ddim rhoi sylw i'w gwaith. Mae angen eu cosbi'n llym. |

neu unrhyw dechnegau cywir eraill.
Gwerthuso/dadansoddi

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 5**

**Sut dylem ni ymateb i’r fandaliaeth ar gofeb Tryweryn?**

**A10.** Beth yw bwriad Meirion MacIntyre Huws yn y darn hwn? [1]

Perswadio ✓
Gwerthuso
✓ mwy nag un 0 marc

**A11.** Edrychwch ar y gosodiadau isod sy’n dod o’r darn darllen. Nodwch a yw pob brawddeg yn cynnwys ffaith neu farn trwy roi ✓ yn y golofn briodol. [2]

| | **Ffaith** | **Barn** |
|---|---|---|
| Nid bytheirio a rhegi a galw am dywallt gwaed yw'r ateb hir-dymor. | | ✓ |
| Mae rhai wedi galw ar Amgueddfa Werin Sain Ffagan i ddiogelu’r wal. | ✓ | |
| Nid mewn amgueddfa y dylai rhywbeth sydd yn parhau i wneud ei waith fod. | | ✓ |
| Mae rhywun wedi ymosod ar wal 'Cofiwch Dryweryn'. | ✓ | |

Gwahaniaethu rhwng ffaith a barn
4 ateb cywir – 2 farc
2/3 ateb cywir – 1 marc
0/1 ateb cywir – 0 marc

**A12**.

| |
|---|
| Ond wedyn pam na ddylen ni fynd â'r cerrig gwreiddiol i'r Amgueddfa Werin lle cawn nhw eu gwarchod ddydd a nos hyd dragwyddoldeb? |

Beth yw ystyr yr ymadrodd “hyd dragwyddoldeb”? [1]

Am byth/tan ddiwedd amser
Dehongli ystyr ymadrodd

**Darn Darllen 6**

**Anfarwoli Greta Thunberg ar wal ym Mryste**

**A13**. O ba wlad y daw Greta Thunberg yn wreiddiol? [1]

Sweden
Adalw gwybodaeth

© WJEC CBAC Cyf.

**Darnau Darllen 5 a 6**

**Sut dylem ni ymateb i'r fandaliaeth ar gofeb Tryweryn?**

**Anfarwoli Greta Thunberg ar wal ym Mryste**

**A14.** Mae problemau yn ein hwynebu yn y byd.
**Cyfunwch a chrynhowch wybodaeth** o'r ddau ddarn darllen i ddangos
- pa broblemau sy'n ein hwynebu ni
- sut gallwn ni ymateb yn gadarnhaol i'r problemau hyn. [6]

| Darn Darllen 5 | Darn Darllen 6 |
|---|---|
| **Problemau**<br>• Rhywrai wedi dinistrio wal "Cofiwch Dryweryn" am y trydydd tro eleni<br>• Trosedd casineb yn erbyn y Cymry<br>• Awgrym nad Cymry yw'r "nhw"<br><br>**Ymateb**<br>• Rhoi'r gorau i ymateb yn chwyrn bob tro mae'r wal yn cael ei thargedu<br>• Rhoi'r gorau i fytheirio a rhegi a galw am dywallt gwaed<br>• Syniad chwyldroadol – defnyddio'r Gymraeg a bydd hyn yn eu syrffedu "nhw" efo'r iaith a phrofi nad ydi hi am ddiflannu<br>• Mynd â'r wal i Sain Ffagan i'w diogelu<br>• Casglu criw at ei gilydd a chodi wal newydd sbon<br>• Peintio'r wal eto ac eto ac eto - eu syrffedu nhw efo paent yn ogystal â geiriau<br>• Gweithio gyda'n gilydd | **Problemau**<br>• Mae'r blaned yn wynebu argyfwng newid hinsawdd<br>• Hyd at filiwn o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid mewn perygl o gael eu colli am byth – a hynny'n fuan - oherwydd bodau dynol<br>• Pobl sydd yn wrth-amgylcheddwyr fel yr Arlywydd Donald Trump yn dilorni ymdrechion Greta Thunberg/ymgyrchwyr sy'n ceisio achub y blaned<br><br>**Ymateb**<br>• Creu murlun celf stryd enfawr (sy'n darlunio Greta Thunberg, yr ymgyrchydd hinsawdd 16 oed, yn boddi mewn dŵr rhewllyd) i dynnu sylw at y broblem<br>• Bod yn barod i wneud safiad a phrotestio – e.e. peidio â mynd i wersi yn yr ysgol ar ddyddiau Gwener<br>• Efelychu protestiadau pobl eraill e.e. gweithred Greta Thunberg yn arwain at don o streiciau gan ddisgyblion ysgol ar draws y byd<br>• Denu sylw positif gan enwogion er mwyn cael cyhoeddusrwydd i'r achos<br>• Defnyddio'r murlun i sbarduno trafodaeth am y newid yn yr hinsawdd a'i effaith ar ein cymdeithas<br>• Ysbrydoli rhai i ddysgu mwy am y mater<br>• Codi ymwybyddiaeth gynyddol, a phryder cynyddol, am yr amgylchedd |

© WJEC CBAC Cyf.

Gellir cyfeirio at bwyntiau eraill perthnasol.
p – problemau
s – sut gallwn ni ymateb
d – dehongli

**0 marc**
Os na cheir ymdrech i ateb y cwestiwn

**1 marc**
Peth ymdrech i gyfuno gwybodaeth o’r ddau destun drwy restru’r anawsterau a’r ymatebion yn fras (1-4 anhawster/ymateb)

**2 farc**
Peth ymdrech i gyfuno gwybodaeth o’r ddau destun drwy restru’r anawsterau a’r ymatebion (5+ anhawster/ymateb)

**3 marc**
Ymdrech eithaf da i gyfuno gwybodaeth o’r ddau destun wrth restru’r anawsterau a’r ymatebion a dechrau dehongli’r wybodaeth

**4 marc**
Cyfuno gwybodaeth o’r ddau destun yn dda a dehongli’r wybodaeth yn gyson

**5 marc**
Cyfuno gwybodaeth o’r ddau destun yn dda iawn a dehongli’r wybodaeth yn bwrpasol

**6 marc**
Cyfuno gwybodaeth o’r ddau destun yn aeddfed gan ddehongli’r wybodaeth yn aeddfed a threfnus

Cyfuno/crynhoi/dehongli

**Cwestiwn B1 (20 marc)**

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 5** | **9-10 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **9-10 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **7-8 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **7-8 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |

© WJEC CBAC Cyf.

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 3** | **5-6 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **5-6 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |
| **Band 2** | **3-4 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **3-4 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-2 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-2 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |



© WJEC CBAC Cyf.